Ysgol Gyfun Gymunedol

# Penweddig

## Pecyn gwybodaeth

# Cynorthwy-ydd Addysgu Lefel 1

## (30 awr yr wythnos, adeg y tymor yn unig, cyfnod penodol)

Cymreictod

Parch

Ymdrech

**Cyflog Graddfa 2**

**(£23,656 pro-rata)**

Dyddiad cau: 19 Mehefin 2025

## SWYDD CYNORTHWY-YDD ADDYSGU L1

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am fynegi diddordeb yn yr hysbyseb am y swydd hon ym Mhenweddig.

Mae Penweddig yn ysgol lwyddiannus, sydd â hanes o welliant a datblygiad. Mae nifer sylweddol o'n disgyblion yn sicrhau canlyniadau TGAU a Safon Uwch sydd yn uwch nag ysgolion cyffelyb. Mae ymddygiad ein disgyblion yn dda iawn, ac mae ganddynt ymagwedd bositif ac ysgogol at ddysgu. Cyniga'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol a hynny mewn amgylchedd Gymraeg a Chymreig. Mae Penweddig yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol. Cydnabuwyd hyn yn ystod Arolwg Estyn llwyddiannus diweddar yr ysgol yn Hydref 2024:

*"Mae gofalu am les disgyblion yn cael lle blaenllaw yn Ysgol Gyfun Penweddig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos parch at ei gilydd ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn gaffaeliad i'r ysgol, gan fodelu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol iawn i ddisgyblion iau. Mae trefniadau cadarn i fonitro a hybu presenoldeb disgyblion wedi arwain at welliannau sylweddol." (Estyn Hydref 2024)*

Lleolir yr ysgol yng nghanol tref brifysgol fywiog Aberystwyth. Ymfalchïwn yng nghyfleusterau ac adnoddau o'r radd flaenaf sydd gennym ym Mhenweddig. Am flas o'r ysgol ewch i ymweld â gwefan yr ysgol neu wylio ein fideo hyrwyddo.

Os ydych angen unrhyw wybodaeth ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â ni naill ai drwy ffonio'r ysgol (01970 639499), neu drwy e-bost at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk .

Hyderaf bydd y pecyn gwybodaeth hwn yn rhoi syniad da i chi o gyd-destun y swydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 19 Mehefin 2025.**

**Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef yr wythnos yn cychwyn 23 Mehefin 2025.**

Yn gywir

*Clive Williams*

Pennaeth

# DISGRIFIAD SWYDD

## CYNORTHWY-YDD ADDYSGU LEFEL 1

**30 awr yr wythnos ◦ Adeg y tymor yn unig ◦ Swydd am gyfnod penodol o Fedi 2025 hyd at ddiwedd Ebrill 2026 i gychwyn (gyda phosibiliad o ymestyn)**

### CEFNDIR

Mae'r ysgol yn chwilio am berson brwdfrydig ac egnïol i ymgymryd â'r swydd uchod yn yr Adran Gynnal. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol o Gymreictod, Parch ac Ymdrech. Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr sydd am gytundeb rhan-amser. Dylid nodi hynny yn y ffurflen gais.

### CYNORTHWY-YDD ADDYSGU LEFEL 1

Gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff addysgu/uwch aelodau o'r staff, fel rheol yn yr ystafell ddosbarth gyda'r athro neu'r athrawes; cefnogi mynediad at ddysgu i'r disgyblion, a darparu cefnogaeth gyffredinol i'r athro neu'r athrawes gyda rheolaeth y disgyblion a'r ystafell ddosbarth.

**Cefnogi disgyblion**

· Ymwneud ag anghenion personol y disgyblion, a gweithredu rhaglenni personol perthnasol, gan gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf a lles
· Goruchwylio a chefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at ddysgu
· Cynorthwyo gyda datblygu, gweithredu ac adolygu Cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol
· Sefydlu perthynas dda gyda'r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddwyn, a bod yn ymwybodol o anghenion unigol ac ymateb yn briodol iddynt
· Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunanwerth
· Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd, cyflawniad, ymddygiad, presenoldeb, ac ati
· Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i'r holl ddisgyblion
· Annog disgyblion i ryngweithio ag eraill ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan arweiniad yr athro neu'r athrawes
· Annog disgyblion i weithredu'n annibynnol, fel y bo'n briodol

**Cefnogi'r Athro neu'r Athrawes**

· Paratoi'r ystafell ddosbarth yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfer gwersi, a chlirio wedyn, a chynorthwyo gydag arddangos gwaith disgyblion
· Bod yn ymwybodol o broblemau/cynnydd/cyflawniadau disgyblion a chyflwyno adroddiad i'r athro neu'r athrawes yn unol â'r hyn a gytunwyd
· Cadw cofnodion disgyblion yn unol â'r cais
· Cefnogi'r athro neu'r athrawes gyda'r gwaith o reoli ymddygiad disgyblion, gan gyflwyno adroddiad ar anawsterau, fel y bo'n briodol
· Casglu/cyflwyno gwybodaeth i/oddi wrth rieni/gwarchodwyr yn unol â'r cyfarwyddyd
· Darparu cefnogaeth glerigol/weinyddol e.e. llungopïo, teipio, ffeilio, casglu arian, ac ati.

**Cefnogi'r Cwricwlwm**

· Cefnogi disgyblion i ddeall cyfarwyddiadau
· Cefnogi disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm
· Cefnogi disgyblion o ran strategaethau lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, CA3, y blynyddoedd cynnar, yn unol â chyfarwyddyd yr athro neu'r athrawes
· Cefnogi disgyblion gyda'r gwaith o ddefnyddio TGCh sylfaenol yn unol â'r cyfarwyddyd
· Paratoi, a chynnal a chadw, offer/adnoddau yn unol â chyfarwyddyd yr athro neu'r athrawes, a chynorthwyo'r disgyblion i'w defnyddio

**Cefnogi'r Ysgol**

· Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol
· Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu
· Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
· Gwerthfawrogi a chefnogi swyddogaeth y gweithwyr proffesiynol eraill
· Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw
· Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a datblygu perfformiad yn ôl y gofyn
· Cynorthwyo gyda'r gwaith o oruchwylio disgyblion ar adegau y tu allan i wersi, gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod yr awr ginio
· Mynd gyda'r staff addysgu a'r disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn ôl y galw

PENNAETH: MR R CLIVE WILLIAMS
YSGOL GYFUN GYMUNEDOL PENWEDDIG, LLANBADARN FAWR, ABERYSTWYTH • 01970 639499
YMHOLIADAU@PENWEDDIG.CEREDIGION.SCH.UK • WWW.PENWEDDIG.CYMRU

## MANYLEB PERSON

| | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| CYMWYSTERAU | • Rhaglen Gyflwyniad Cynorthwy-ydd Addysgu wedi'i chwblhau neu gymhwyster gyfatebol | • Hyfforddiant Cymorth Cyntaf |
| PROFIAD | • Profiad o weithio gyda neu ofalu am blant o'r oed perthnasol | |
| SGILIAU A RHINWEDDAU PERSONOL | • Y gallu i gyfathrebu'n llawn drwy'r Gymraeg<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Sgiliau TGCh da<br>• Sgiliau rhyngbersonol da<br>• Sgiliau rhifedd a llythrennedd da<br>• Y gallu i gadw cyfrinachedd<br>• Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu<br>• Gweithio'n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau'r ystafell ddosbarth a'ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny | • Y gallu a'r parodrwydd i hybu proffil yr Ysgol o fewn y gymuned leol a chenedlaethol |
| ERAILL | • Gwiriad DBS manwl<br>• Cofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg | |

**DIOGELU: DATGANIAD CYNGOR SIR CEREDIGION**
Mae diogelu ac amddiffyn plant yn flaenoriaethau allweddol i ni. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Rydym ni a'n sefydliadau addysgiadol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc a'r hawl i gael eu hamddiffyn a byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'u lles. Disgwylir i bob aelod staff a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn a byddwn yn gofyn am Wiriad Manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), sef y CRB gynt.

## GWNEUD CAIS AM Y SWYDD

Mae modd gwneud cais am y swydd hon drwy gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion [Addysg | Ceredigion County Council Careers]

## CYFWELD

Dyddiad cau: **19 Mehefin 2025**

Bwriedir cynnal y cyfweliad yr wythnos ganlynol, sef **yr wythnos yn cychwyn 23 Mehefin 2025.**

## CEREDIGION AC ABERYSTWYTH

### CEREDIGION



Sir arfordirol yng ngorllewin Cymru yw Ceredigion, sydd â phoblogaeth o tua 71,500 (2021). Mae iddi dirwedd odidog sy'n ymestyn o Fynyddoedd y Cambrian i'r arfordir ysblennydd ym Mae Ceredigion. Mae ei threfi sirol a'i phentrefi cefn gwlad yn frith o ddiwylliant a hanes.

Mae economi'r sir yn bennaf ddibynnol ar amaethyddiaeth, twristiaeth a bwyd, ond ceir hefyd sectorau arwyddocaol eraill megis addysg uwch, gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu.

### ABERYSTWYTH



Aberystwyth yw tref fwyaf Ceredigion. Tref hanesyddol ydyw, a ddaeth yn gyrchfan glan-môr yn oes Fictoria. Mae'n gartref i Brifysgol (un o golegau sylfaenol Prifysgol Cymru), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru.

Mae'r dref wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru a'r iaith Gymraeg. Yma yn Aberystwyth, dros 80 mlynedd yn ôl, sefydlwyd yr Ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru, ac yma hefyd yn 1963 cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – protest Pont Trefechan.

Mae nifer o leoliadau i fwynhau perfformiadau theatr, ffilm, cerddoriaeth a chelfyddyd weledol, yn ogystal â chwaraeon. Mae amrywiaeth o siopau annibynnol a llefydd bwyta. Mae marchnad ffermwyr Aberystwyth wedi ei chydnabod fel un o'r goreuon ym Mhrydain.



Yn lleol ceir nifer o lwybrau beicio a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, fel Nant yr Arian.

Gyda phoblogaeth o tua 12,250, mae Aberystwyth yn le braf i fyw, astudio, gweithio ac i fagu teulu.